Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **Dydd Llun, 12 Hydref 2009**

Teitl: Cryfhau llais myfyrwyr

Bydd prifysgolion a'u myfyrwyr yn dathlu'r rhan a chwaraeir gan fyfyrwyr mewn datblygu addysg uwch yng Nghymru mewn digwyddiad a gynhelir yn y Senedd ar 12 Hydref.

Jane Hutt, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn siarad yn y digwyddiad, a fydd yn nodi cyhoeddi ymrwymiad i ymgysylltu â myfyrwyr ar ran y sector – gan gynnwys sefydliadau addysg uwch (AU) ac NUS Cymru – mewn dogfen o'r enw *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru*. Bydd prosiect newydd o'r enw 'Dweud eich dweud' yn cael ei lansio'r un pryd.

Bydd y digwyddiad yn dathlu agwedd gadarn a chynhwysol sefydliadau AU Cymru at sicrhau bod myfyrwyr yn cael pob cyfle posibl i lunio eu profiad prifysgol.

Mae'r prosiect 'Dweud eich dweud' yn rhoi lle canolog i fyfyrwyr mewn datblygiadau addysg uwch (AU) yng Nghymru ac yn ymdrin â recriwtio, hyfforddi a sefydlu rhwydwaith o gynrychiolwyr cwrs o blith y myfyrwyr.

Bydd *Menter Ymgysylltu â Myfyrwyr Cymru* a 'Dweud eich dweud' yn helpu i wneud Cymru yn arweinydd ym maes ymgysylltu â myfyrwyr, drwy roi mwy o reolaeth i fyfyrwyr dros eu profiad addysg uwch a meithrin medrau arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a chyfathrebu ehangach. Bydd hyn oll yn gwneud profiad y myfyrwyr yn fwy cyfiawn.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Mae llawer o waith da yn cael ei wneud eisoes yn y maes hwn yn sefydliadau addysg uwch Cymru a bydd y datblygiad hwn yn caniatáu i'r holl bartneriaid adeiladu ar y sylfeini cryf hyn. Myfyrwyr sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor arbenigol am eu profiadau dysgu.

"Gwyddom eisoes, o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ac adborth arall gan fyfyrwyr o brifysgolion a cholegau Cymru, fod gan fyfyrwyr agwedd gadarnhaol at astudio yng Nghymru. Drwy gynyddu cydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch, NUS Cymru a chyrff eraill rydym yn gobeithio rhoi mwy o rym i fyfyrwyr drwy eu cynnwys mwy mewn penderfyniadau am eu dysgu."

Meddai Katie Dalton, Llywydd NUS Cymru: "Nod y dull mwy rhyngweithiol hwn, sy'n rhoi lle canolog i'r myfyriwr, yw atgyfnerthu'r trefniadau adborth sydd eisoes yn eu lle fel y gall myfyrwyr weithio'n nes â'u sefydliadau i wella eu profiadau dysgu.

"Rydyn ni'n ffyddiog y bydd myfyrwyr, os cânt y cymorth ac adnoddau iawn, yn gallu chwarae rhan weithgar yn nyfodol addysg uwch yng Nghymru, gan sicrhau bod anghenion poblogaeth gynyddol amrywiol o fyfyrwyr yn cael eu deall yn well a bod eu hadborth yn cael ei ddefnyddio'n adeiladol gan y sefydliadau i gryfhau'r profiad addysgol yng Nghymru."

Meddai Anthony McClaran, sydd newydd ei benodi'n Brif Weithredwr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd: "Mae barn myfyrwyr yn ganolog i'n gwaith. Bydd y cydweithio hwn rhwng y cyrff addysg uwch ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru yn helpu i siapio ansawdd profiadau dysgu yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ASA yn ystyried bod gweithio â myfyrwyr a chael eu sylwadau a'u syniadau yn rhan hanfodol o sicrhau ansawdd addysg uwch."

Dywedodd yr Athro Noel Lloyd, Cadeirydd Addysg Uwch Cymru ac Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth: "Mae gweithio â myfyrwyr ar amrywiaeth eang o agweddau ar waith sefydliadau addysg uwch yn bwysig, ac mae'n rhywbeth yr ydyn ni'n ei wneud yn dda yng Nghymru. Mae cynnwys myfyrwyr yn y profiad addysgol cyffredinol, darparu cymorth effeithiol a gosod disgwyliadau uchel yn faterion yr ydym yn eu hyrwyddo'n gryf yn ein prifysgolion.

"Mae'r lansiad heddiw yn nodi cyfle cyffrous i fyfyrwyr barhau i gryfhau ymgysylltu yn ein prifysgolion a dod â phersbectif newydd i'w profiad dysgu."

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

I gael rhagor o wybodaeth cysyllter â:

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (ASA/QAA) wedi nodi arfer da ym maes ymgysylltu â myfyrwyr mewn AU yng Nghymru, a nododd yr adroddiad *Study of the Extent and Effectiveness of Existing Student Representation Structures within Higher Education Institutions across Wales* (2006), gan York Consulting, ddulliau o ymgysylltu â myfyrwyr ac amrywiaeth o weithgareddau cadarnhaol a gaiff eu rhannu ac yr adeiledir arnynt drwy'r ymrwymiad newydd. Mae'r astudiaeth ar gael ar wefan CCAUC: http://www.hefcw.ac.uk/documents/policy_areas/learning_and_teaching/york_consulting_doc.pdf

Mae'r grŵp traws-sector a fydd yn gweithio mewn partneriaeth ag NUS Cymru'n cynnwys cyrff cyhoeddus sy'n ymdrin ag ansawdd a chyllido addysg uwch, a chyrff prifysgol sy'n datblygu arferion addysgu mewn AU ac yn cynrychioli penaethiaid sefydliadau AU.

Mae'r grŵp yn cynnwys Addysg Uwch Cymru, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a'r Academi Addysg Uwch.

Nod yr ymagwedd newydd yw atgyfnerthu, rhannu ac adeiladu ar arferion da presennol a dysgu oddi wrth bartneriaid ar draws y DU ac Ewrop. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ddiwedd y datganiad hwn.

Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC), sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil y mae SAUau yn ymgymryd ag ef; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr **hyfforddiant addysgu cychwynnol** ar gyfer athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant i athrawon.

Yn ychwanegol i'w gyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon ynghylch cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.

Sefydlwyd UCMC yn 1974 ac mae'r mudiad democrataidd mwyaf yng Nghymru, yn cynrychioli dros chwarter miliwn o fyfyrwyr yn y sectorau Addysg Bellach ac Uwch.

Mae UCMC yn fudiad agored sy'n gweithio mewn partneriaeth ag undebau myfyrwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Leol a Chenedalethol, y Cyfryngau, Diwydiant, Undebau Llafur, Grwpiau Pwysedd a Mudiadau Gwirfoddol oll yn cydnabod ac yn parchu UCMC fel llais myfyrwyr yng Nghymru.

Mae UCMC yn 'rhanbarth arbennig' hunan-reolus o UCM DU, yn gosod ei bolisi ei hun, yn ethol ei bwyllgor gwaith ei hun, ac yn ymgyrchu ar y materion hynny sy'n effeithio ar fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru.